CYFRES B7

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 41: 46-57
42: 1-26

ADNOD
ALLWEDDOL
Numeri 32: 23

Gwers 1 Bywyd Joseff – Ysbïwyr yn yr Aifft

Pan oedd Joseff yn rheoli'r Aifft, roedd digonedd i'w fwyta yn y blynyddoedd da – fel yr oedd Joseff wedi'i ddweud wrth Pharo, y brenin.

C Darllenwch adnod 49 a rhoi cylch o gwmpas y llun sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r cynhaeaf yn y blynyddoedd hynny.



1

C Gwnewch y symiau hyn. 4 + 4 - 6 = ☐ 16 - 9 = ☐ 10+10+10 = ☐

Defnyddiwch eich atebion i lenwi'r bylchau yn y brawddegau isod.

Roedd Joseff yn ☐ oed pan ddechreuodd reoli'r wlad.

Roedd ☐ mlynedd o gynhaeaf da.

Roedd gan Joseff ☐ fab o'r enw Manasse ac Effraim.

3

Yna, daeth newyn! Doedd dim glaw, dim ond dyddiau poeth, poeth. Nid oedd cnydau'n tyfu, dim cynhaeaf a dim bwyd.

C Pan oedd eisiau bwyd ar bobl yr Aifft, beth ddywedodd Pharo wrthynt am ei wneud. (Adnod 55)



2

Roedd newydd yng ngwlad Canaan hefyd. Roedd Jacob yn poeni am ei deulu.

C Dewiswch yr atebion i'r cwestiynau isod o blith y rhifau hyn.

10 12 2 3 1

Faint o frodyr Joseff aeth i'r Aifft? ☐

Sawl un a adawyd ar ôl? ☐

2

C Rhowch ✓ neu ✗ yn y blwch yn y golofn gywir i ateb y cwestiynau hyn:-

	✓	✗
A wnaeth y brodyr nabod Joseff?	❑	❑
A wnaeth Joseff eu nabod nhw?	❑	❑
A ddaeth breuddwyd Joseff am y sêr a'r ysgubau yn wir?	❑	❑
A ddywedodd Joseff "Ysbïwyr ydych!" ?	❑	❑
A oedd Joseff eisiau gweld Benjamin?	❑	❑
A oedd yr Eifftwyr a'r brodyr yn siarad yr un iaith?	❑	❑
A gadwodd Joseff Reuben gydag ef?	❑	❑
A fu Joseff yn garedig wrthynt trwy roi bwyd ar gyfer y daith?	❑	❑

8

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

C Defnyddiwch Genesis 42: 21 a 22 i'ch helpu i esbonio YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN sut y daeth pechodau'r brodyr yn ôl i'w poeni.

2

Roedden nhw'n cael eu cosbi am yr hyn a wnaethon nhw flynyddoedd lawer cyn hynny. Mae cosb i'w thalu bob amser am ein pechodau. Yr unig ffordd y gallwn gael maddeuant yw:

Cyfaddef wrth Dduw ein bod wedi pechu.

Credu bod yr Arglwydd Iesu wedi'i gosbi am ein pechodau ni pan fu farw.

Cyflwyno ein bywydau iddo a gofyn am ei help i beidio â phechu eto.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 42: 35-38
43: 11-14, 24-31,
44: 1-17

ADNOD
ALLWEDDOL
Effesiaid 4: 32

Gwers 2 Bywyd Joseff – Benjamin a Newyddion Drwg!

Pan gyrhaeddodd y brodyr adref, fe ddywedon nhw wrth eu tad beth oedd wedi digwydd. Fe ddywedon nhw eu bod wedi cael eu cyhuddo o fod yn sbïwyr a bod rheolwr yr Aifft wedi mynnu gweld Benjamin a'i fod wedi cadw Simeon. Fe wnaethon nhw esbonio eu bod yn ofnus iawn.

C Pam yr oedd ofn arnynt? (Pennod 42: 35)

1

C Ysgrifennwch yr enwau cywir yn y bylchau.

Yr oedd Jacob wedi cynhyrfu'n lân: Dywedodd "Bu farw _ _ _ _ __; nid yw _ _ _ _ _ _ yma, ac yr ydych am ddwyn _ _ _ _ _ _ _ _ ymaith".

3

Er i Reuben ymbil arno, gwrthododd Jacob adael iddynt fynd â Benjamin yn ôl gyda nhw. Gwaethygodd y newyn. Pan nad oedd ganddynt fwyd o gwbl, dywedodd Jwda ei bod yn rhaid iddynt fynd i'r Aifft eto neu byddent yn llwgu. Addawodd ofalu am Benjamin a dod ag ef yn ôl. Yna, gwnaethon nhw baratoi anrheg i Joseff.

C Beth oedd yr anrheg? Darllenwch bennod 43: 11-13 a rhestru'r pethau a rhoddwyd yn y fasged ar gefn yr asyn.

1.
2.
3.
4.
5.



5

C Pwy oedd Jacob yn gobeithio y byddai'n eu helpu?

1

Yn y diwedd, fe gyrhaeddon nhw i'r Aifft. Gwelodd Joseff fod Benjamin gyda nhw. Trefnodd iddyn nhw, a Simeon, gael pryd o fwyd gydag ef ganol dydd. Fe wnaethon nhw ymgrymu i Joseff wrth roi'r anrhegion iddo.

C Beth wnaeth Joseff holi iddynt am eu tad? (Adnod 27)

2

C Beth ddywedodd Joseff wrth Benjamin?



1

Fe gawson nhw wledd gyda Joseff – ond doedden nhw ddim yn gwybod pwy oedd e! Cyn i'r brodyr gychwyn am adref, dywedodd Joseff wrth ei swyddog am lenwi eu sachau â bwyd ac i guddio cwpan arian mewn un ohonynt. Yn nes ymlaen, anfonodd Joseff ei swyddog ar ôl ei frodyr. Cyhuddodd nhw o ddwyn cwpan arian Joseff. Roedden nhw'n gwadu hyn. Felly, aeth ati i chwilio trwy'r sachau i gyd gan ddechrau â sach y brawd hynaf.
Daeth y swyddog o hyd i'r cwpan arian yn sach Benjamin!
Roedd y brodyr yn methu deall beth oedd wedi digwydd. Aethant i gyd yn ôl gyda Benjamin a chynnig bod yn gaethweision i Joseff.

CROESAIR

(Pennod 44)



Cliwiau i Lawr
1. Ar ôl i'r cwpan ddod i'r golwg, aeth y brodyr yn ôl i'r __ _ _ _ _. (Adnod 13)
4. Fe wnaeth y brodyr adael ar doriad y _ _ _ _. (Adnod 3)
5. Ymateb y brodyr pan gawsant eu cyhuddo o ddwyn y cwpan. "_ _ " (Adnod 7)

Cliwiau ar Draws
2. Rhwygodd y brodyr eu _ _ __ _ _. (Adnod 13)
3. Roedd hwn wedi'i wneud o arian. _ _ _ _ _ (Adnod 2)
6. Rhoddwyd y bwyd yn y _ _ __ _ _. (Adnod 1)
7. Dywedodd y brodyr eu bod wedi dod â'r _ _ _ _ _ oedd yn eu sachau yn ôl.

6

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

1

Weithiau, rydyn ni'n debyg i frodyr Joseff. Rydyn ni'n gwneud pethau na ddylem ni. Mae Duw yn barod i faddau i ni os ydyn ni'n barod i ddod ato ef a chyffesu ein pechodau. Os yw Duw yn barod i faddau i ni a ninnau wedi pechu yn ei erbyn ef, oni ddylem ni fod yn barod i faddau i bobl eraill?

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 44: 18-34
45: 1-14, 25-28

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 45: 9

Gwers 3 Bywyd Joseff – Maddeuant a Newyddion Da!

Unwaith eto, roedd ei frodyr yn gorfod wynebu Joseff. Y tro hwn, roedd y sefyllfa'n waeth nag erioed. Roedd y swyddog wedi dod o hyd i gwpan arian Joseff yn sach Benjamin. Does dim rhyfedd eu bod yn ofnus! Jwda oedd yn siarad drostynt.

C Enwch ddau o bobl yr oedd Jwda'n poeni amdanynt. 2

1 _____ 2 _____

C Sut y dangosodd Jwda ei gariad at Benjamin? 1

_____

C Beth wnaeth Joseff? 1

Fe _____

C Ysgrifennwch ei eiriau. (Pennod 45:3) 2



Roedd y brodyr yn ofnus iawn pan wnaethon nhw sylweddoli pwy oedd rheolwr y wlad. Roedden nhw'n meddwl ei bod ar ben arnynt! Byddai Joseff yn siŵr o dalu nôl iddynt. Ond na! Roedd Joseff wedi maddau iddynt ac nid oedd am eu cosbi, er eu bod yn haeddu hynny. Roedd wedi deall bod Rhywun wedi bod yn rheoli ei fywyd.

C Rhowch y geiriau isod yn y drefn gywir ac wedyn rhowch nhw yn y bylchau cywir yn y paragraff isod. 3

W U D F O A N DD O N I F

Fe wnaethoch chi fy ngwerthu i, ond _ _ _ _ _ _ __ _ _ _ _ _ o'ch blaen i achub bywyd ei bobl. _ _ _ _ _ _ __ _ _ _ _ _ o'ch blaen i wneud yn siwr y byddech chi a'ch teuluoedd yn byw trwy'r newyn. Nid chi a'm H _ _ _ _ _ __ i yma, ond _ _ _.

Roedd Joseff yn credu bod Duw yn dda er ei fod wedi cael amserau anodd.

C **Pa lythrennau sydd ar goll o'r wyddor yma? Rhowch nhw yn y drefn gywir i gael gwybod beth yr oedd Joseff yn gallu ei wneud gyda help Duw. (Mae un o'r llythrennau'n digwydd ddwywaith).**

2

_ B C Ch D _ E F Ff G Ng H I Ll _ N O P Ph R Rh S T Th _ W Y

Ysgrifennwch eich ateb yma.

Yn awr, gallai Joseff ddangos i'w frodyr faint roedd yn eu caru mewn gwirionedd.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol er mwyn cael gwybod beth roedd Joseff eisiau i'w frodyr ei wneud.**

2

C **Defnyddiwch y rhifau isod i'ch helpu i weld pa anrhegion a anfonodd Joseff adref. (45: 21 – 23)**

40 20 5 300 75

Cafodd Benjamin ☐ o ddarnau arian

Cafodd Benjamin ☐ gwisg newydd

Cafodd Jacob ☐ asyn yn llwythog o bethau gorau'r Aifft, ŷd a bara.

3

Felly, aeth y brodyr adref at eu tad â'r newyddion da.

C **Darllenwch bennod 45: 26-28 a llenwi'r bylchau isod i ddangos sut y mae'r 'Newyddion Da' a gafodd Jacob am Joseff yn debyg i'r 'Newyddion Da' rydyn ni wedi'i gael am Iesu Grist.**

Y 'Newyddion Da' am Joseff

1. Mae Joseff yn _ _ _!
2. Mae Joseff yn _ _ _ _ _ _ _ __ yr Aifft.
3. Darparodd Joseff ffordd o _ __ _ _ ei deulu yn ystod y newyn.
4. Roedd Joseff eisiau i'w _ _ _ _ _ ddod i fyw ato i'r Aifft.

Y 'Newyddion Da' am Iesu

1. Mae Iesu'n fyw.
2. Mae Iesu'n Arglwydd popeth.
3. Mae Iesu wedi darparu popeth y mae arnom ei angen i gael ein hachub
4. Mae Iesu eisiau i ti ddod ato heddiw.

4

Enw

DARLLENWCH
Genesis 46: 1-7, 26-34

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 50: 20

Gwers 4 Bywyd Joseff – Gyda'i gilydd yn yr Aifft

Roedd Jacob wrth ei fodd o glywed bod Joseff yn fyw. Felly, casglodd ei deulu ynghyd a chychwyn am yr Aifft. Ar y ffordd, arhosodd i addoli Duw. Roedd Duw wedi addo i Abraham, Isaac a Jacob y byddai'n eu gwneud yn genedl fawr, gan roi eu tir eu hunain iddynt a bendithio pobl eraill trwyddyn nhw.

C Cyn i Jacob gyrraedd i'r Aifft, atgoffodd Duw ef o'i addewidion. Llanwch y bylchau: Dywedodd:

(Adnod 3)	Myfi yw
	Fe'th wnaf
(Adnod 4)	Af i lawr
	Dof â thi

4

C Lle ddigwyddodd hyn?

1

Cadwodd yr Arglwydd ei addewidion i Jacob a bendithiodd Joseff hefyd.
Rhaid i ni roi Duw yn gyntaf bob amser ac ufuddhau iddo. Mae wedi addo bod gyda ni, er y bydd bywyd yn ymddangos yn anodd i ni weithiau, fel yr oedd i Joseff.
Dywedodd Duw "Y rhai sy'n fy anrhydeddu a anrhydeddaf." (1 Samuel 2:30)

C O'r hyn a ddysgoch chi yma, sut roedd hyn yn wir am Joseff?

2

C Ticiwch y blwch ger y llun sy'n dangos beth a ddefnyddiodd Joseff i fynd i gwrdd â'i dad.





1

O'r diwedd, roedden nhw gyda'i gilydd eto. Roedd yna ddagrau llawenydd.

1

C Sawl aelod o deulu Jacob ddaeth i fyw yn yr Aifft? (Adnod 26)

C Beth ddywedodd Jacob pan welodd Joseff?



1

POS GEIRIAU

Yn y Pos Geiriau, rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cliwiau isod. Maen nhw wedi'u hysgrifennu i fyny, i lawr, am ymlaen ac am yn ôl.

1. Anfonodd Jacob y mab hwn o'u blaen i'r Aifft. (Adnod 28)
2. Daethant i'r ardal hon. (Adnod 28)
3. Y man lle bu Jacob a'i feibion yn byw. (Adnod 31)
4. Gair arall am "gwaith". (Adnod 33)
5. Gwaith y brodyr. (Adnod 32)
6. Daeth y brodyr a'u hanifeiliaid a'u holl _ _ __ _ gyda nhw. (Adnod 32)
7. Gwnaeth Joseff hyn pan ddaeth wyneb yn wyneb â'i dad. (Adnod 29)

J	T	G	O	B	G	S
W	P	A	C	X	B	D
D	O	L	Y	W	U	DD
A	W	W	U	L	G	L
J	B	E	P	N	E	G
W	A	D	A	A	I	O
D	R	I	T	I	L	S
A	N	G	I	L	I	E
CH	C	A	N	A	A	N
T	C	E	O	DD	I	E
LL	A	TH	E	R	D	I

7

Ar ôl i Jacob farw a chael ei gladdu yng Nghanaan, roedd y brodyr yn ofni y byddai Joseff yn talu nôl iddynt am fod mor greulon wrtho slawer dydd. Ond roedd Joseff wedi maddau iddynt go iawn ac addawodd fod yn garedig iddyn nhw a'u teuluoedd..

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i weld beth ddywedodd Joseff. Rhowch gylch o gwmpas enw'r un sy'n rheoli popeth, yn ôl Joseff.

3

Mae Duw yn gweithio er daioni ym mywydau'r rhai sy'n ei garu. Roedd wedi achub bywyd teulu Joseff a, thrwy Joseff, roedd wedi bendithio'r Eifftiaid.
Os ydych chi'n anrhydeddu Duw, bydd ef yn eich anrhydeddu chi ac yn bendithio pobl eraill trwoch chi. Ym mywyd Joseff, trodd Duw sefyllfa ddrwg yn sefyllfa dda iawn mewn sawl ffordd.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120